

Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: TAN 15 DAM

At: Penaethiaid Cynllunio
(CC: PINS / RTPI Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru, CLILC)

22 Mawrth 2017

Annwyl Gyfaill

Mae'n bolisi hirsefydlog Llywodraeth Cymru i gyfeirio datblygiad amhriodol i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl o lifogydd. Mae'r Map Cyngor Datblygu sy'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004) yn rhan annatod o weithredu'r polisi hwn yn effeithiol. Cafodd y Map Cyngor Datblygu ei gynhyrchu gyntaf yn 2004 ac fe'i gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ers 2009.

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o heddiw ymlaen y bydd y Map Cyngor Datblygu bellach yn cael ei reoli, ei gynnal a'i gyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn lleihau cymhlethdod drwy leoli pob map yn dangos gwybodaeth o beryglon llifogydd mewn un lleoliad. O ganlyniad i'r newid hwn bydd y Map Cyngor Datblygu yn cael ei diweddarau yn chwarterol yr un pryd a'r Map Llifogydd, gan sicrhau bod y wybodaeth sydd ynddo bob amser yn gywir ac yn gyfredol. Mae hyn yn dileu unrhyw botensial ar gyfer dryswch a all godi pan fydd y Map Llifogydd a'r Map Cyngor Datblygu yn anghyson.

Cyfoeth Naturiol Cymru fydd bellach yn gyfrifol am reoli a gwneud penderfyniadau gweithredol ar y Map Cyngor Datblygu, gan gynnwys ceisiadau i ddiwygio y parthau llifogydd drwy broses herio'r map. Gellir gweld y Map Cyngor Datblygu ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:


<https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy>

Gall awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr ac ymgynghorwyr gael mynediad i'r data parthau llifogydd mewn fformat sy'n gydnaws â GIS drwy geo-borth Lywodraeth Cymru:

<http://lle.gov.wales/catalogue/item/DevelopmentAdviceMap/?lang=cy>

Credaf bod y newid hwn yn welliant sylweddol yn y ffordd o sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael at ddibenion cynllunio, a gobeithiaf y bydd yn cael ei groesawu gan randdeiliaid.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "N. Hemington". The signature is written in a cursive style and is positioned above the printed name.

Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner